# Owen Sheers

## Gweithdy Ysgrifennu Creadigol

## Gwybodaeth i Athrawon

Mae Owen Sheers yw un o'r awduron cyfoes mwyaf cyffrous ac amryddawn o Gymru sy'n ysgrifennu yn Saesneg. Mae wedi ysgrifennu cerddi, nofelau, dramâu, sgriptiau ffilm, erthyglau a gwaith ffeithiol estynedig (rhestrir ei brif weithiau isod). Mae hefyd wedi cyflwyno amryw raglenni teledu, yn fwyaf nodedig y gyfres chwe rhan *A Poet's Guide to Britain* (2009), lle bu'n archwilio cerddi a oedd yn ymdrin â gwahanol agweddau ar dirwedd amrywiol Prydain.

Cafodd ei eni yn Fiji a bu'n byw yno ac yng Nghymru a Llundain yn ystod ei flynyddoedd cynnar ond ymgartrefodd yn nhref Y Fenni ar y ffin o naw oed ymlaen. O ganlyniad, mae llawer o'i waith yn cyfeirio at y dirwedd o'i gwmpas, yn enwedig at fryn Ysgyryd Fawr (sef teitl ei ail gasgliad o farddoniaeth, *Skirrid Hill*) a'r Mynydd Du gerllaw. Fodd bynnag, er bod Cymru a'i dreftadaeth Gymreig wedi dylanwadu ar lawer o'i waith, mae hefyd yn credu ei bod yn bwysig i awduron edrych y tu hwnt i'w ffiniau cenedlaethol a chymryd diddordeb mewn materion byd-eang ac felly yn rhai o'i weithiau teflir y rhwyd ymhellach.



Mae tirwedd a barddoniaeth yn ddau bwnc y mae'n angerddol amdanynt. Mae hyn yn amlwg o'r rhestr o'i gysylltiadau proffesiynol. Mae'n noddwr amrywiaeth o sefydliadau a mentrau llenyddol, gan gynnwys cylchgrawn *New Welsh Review* a Gŵyl Farddoniaeth Cheltenham. Mae hefyd yn gyd-sylfaenydd ac yn ymddiriedolwr Coleg y Mynydd Du – a sefydlwyd i ddarparu addysg bellach ar gynaliadwyedd a'r amgylchedd.

Mae'n addysgwr brwd hefyd. Ers cychwyn ei yrfa mae wedi mynegi ei awydd i gyflwyno mwy o bobl i farddoniaeth gyfoes. Mae bellach yn Athro Creadigrwydd ym Mhrifysgol Abertawe ac yn gyfrifol am ysbrydoli a threfnu prosiectau creadigol cydweithredol rhwng sefydliadau celfyddydol ac ymchwilwyr y Brifysgol. Roedd ymysg y rhai a fu'n rhan o'r prosiect Bannau cyntaf un ac felly mae'n cydnabod bod y prosiect yn bwysig i ddenu pobl ifanc i ymddiddori mewn ysgrifennu.

# Y Cynllun Gwers Canllawiau Defnyddio

Mae'r cynllun gwers hwn wedi'i rannu'n 2 ran.

Mae Rhan 1 yn rhyngweithio â rhan gyntaf y ffilm ac yn ceisio helpu'r myfyrwyr i uniaethu â rhai o brif syniadau Sheers, a'u deall.

Dylid defnyddio Rhan 2 yn benodol gydag ail ran y ffilm, gan stopio'r ffilm pan awgrymir er mwyn rhoi amser i'r myfyrwyr wneud ymarferion Sheers.

Yn amlwg, gall gwersi, yn ogystal â thrafodaethau, amrywio o ran eu hyd. Yn sicr, mae'r deunydd sydd yn y cynllun gwers hwn yn fwy na digon ar gyfer un wers. Mater i'r athrawon unigol yn llwyr yw faint y maen nhw'n ei ddefnyddio neu a ydyn nhw'n dewis defnyddio'r deunydd ar draws dosbarthiadau, gosod rhywfaint ohono fel gwaith cartref ac ati. Byddwn yn awgrymu bod Rhan 2 yn cael ei gwneud mor llawn â phosibl ac mewn un wers gan mai hwn yw'r gweithdy ysgrifennu.

Mae'r adran adnoddau ar y diwedd yn cynnwys dolenni i erthygl gan Owen Sheers sy'n adleisio llawer o'r cysyniadau yn y ffilm, ac at gerddi tirwedd gan Sheers a beirdd eraill, rhestr o adnoddau defnyddiol eraill, a chrynodeb o erthygl y Sheers y cyfeirir ati uchod.

POSTCARD

## Owen Sheers: Prif Weithiau

**Casgliadau o Gerddi**

*The Blue Book*

*Skirrid Hill*

**Cerddi Hir**

'Mametz'

'The Green Hollow'

'To Provide for All: A Poem in the Voice of the NHS'

**Nofelau**

*Resistance*

*I Saw a Man*

**Dramâu**

*The Passion* (a addaswyd yn nofel *The Gospel of Us*)

*Pink Mist*

*Unicorns, Almost*

**Ffeithiol**

*The Dust Diaries*

*Calon*

# Cynllun y Wers

### Cyn y wers

Gofynnwch i'r myfyrwyr a oes ganddyn nhw unrhyw gerddi penodol maen nhw wedi'u darllen am dirwedd y maen nhw hoff iawn ohonynt, ac, os felly, gofynnwch iddyn nhw ddod â nhw i'r dosbarth.

Efallai y byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r myfyrwyr feddwl ymlaen llaw am dirweddau y bydden nhw'n dymuno ysgrifennu amdanynt. Neilltuir rhywfaint o amser i wneud hyn yn ystod y wers ond efallai y byddai'n well gan rai myfyrwyr gael mwy o amser i feddwl. Gofynnwch iddynt feddwl am ddwy neu dair tirwedd bosibl ond ceisiwch eu hannog i fod yn barod i newid, gan y gallai'r gweithdy eu hysbrydoli i ddewis rhywbeth hollol wahanol. Efallai y byddan nhw hefyd yn sylweddoli nad yw eu dewisiadau'n cyd-fynd yn dda â'r ymarferion y mae Owen Sheers yn eu hawgrymu ac felly'n dymuno newid. Gallan nhw newid y dirwedd dan sylw unrhyw bryd y maen nhw'n dymuno ond trwy ystyried y dewis ymlaen llaw, dylai fod ganddynt rai syniadau eisoes wrth wneud y gweithdy.

Dylai'r dirwedd y byddan nhw'n ei dewis fod yn un y maen nhw'n ei hadnabod yn dda ac yn un sy'n bwysig iddynt mewn rhyw ffordd.



# Rhan 1 y Wers

**Cyflwynwch y diffiniad canlynol gan Sheers o'r dirwedd i'r myfyrwyr. Daw hyn o'i Gyflwyniad i *A Poet's Guide to Britain*, ond mae'n dweud rhywbeth tebyg iawn yn y ffilm.**

"…without us, landscape would not exist. There would be nature, but no landscape. Landscape is what happens to nature when we turn up; when her hills, forests and seas are passed through the prism of our imaginations to be refracted again as a painting, a view, a memory. It is our perception that brings landscape into being."

Owen Sheers, 'Introduction' yn *A Poet's Guide to Britain*, golygwyd gan Owen Sheers (Llundain: Penguin, 2009), pp. xvii–xxiii (p. xviii).

**Gofynnwch iddyn nhw drafod y diffiniad yn fyr, mewn grwpiau neu fel dosbarth.**

Ydyn nhw'n cytuno â'r gwahaniaeth yma rhwng tirwedd a natur?

Sut bydden nhw'n diffinio tirwedd a/neu natur?

A yw'n cyd-fynd â'u syniad nhw o gerddi tirwedd? Does dim rhaid iddynt gytuno ond byddai'n amlwg yn ddefnyddiol iddynt gadw'r diffiniad mewn cof wrth wylio'r ffilm ac astudio barddoniaeth Sheers.

**Gwyliwch ran gyntaf y ffilm (y rhan a ffilmiwyd yn y Mynydd Du).**

**Gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried eu hymatebion personol i'r dirwedd a'r awyr agored.**

Pa fath o olygfa sy'n dod i'w meddwl pan ddefnyddir y gair tirwedd? Mynyddoedd, caeau, strydoedd y dref, canol dinasoedd, coedwigoedd, arfordir, ystadau diwydiannol, ffyrdd? Fel y mae Owen Sheers yn pwysleisio tua diwedd y ffilm, mae'n bwysig cofio y gall tirwedd fod yn drefol, yn wledig ac unrhyw beth rhwng y ddau.

Ydyn nhw'n teimlo'n wahanol y tu allan? Os felly, ym mha ffordd? Efallai y byddan nhw'n teimlo'n well, yn waeth neu'n wahanol. Neu efallai nad ydyn nhw'n teimlo'n wahanol, sydd hefyd yn iawn. Cofiwch – does dim rhaid i dirwedd fod yn hardd nac yn hwb i'r enaid, gall fod yn anghysbell, yn frawychus, yn elyniaethus.

Darllenwch 'History' a'r dyfyniad o 'Manhattan – a Poet to be Filmed' gan Owen Sheers. Dyma'r cerddi a drafododd yn ei erthygl 'Poetry and Place' (dolen ar gael yn yr adran Adnoddau) lle mae'n cadarnhau llawer o'r pethau y mae'n eu dweud yn y ffilm. Gallai brasddarllen yr erthygl neu'r crynodeb helpu gyda'r ymarfer hwn, yn ogystal â chael yr erthygl wrth law er gwybodaeth.

Yna ystyriwch yn unigol, neu trafodwch mewn grwpiau neu fel dosbarth, sut mae'r cerddi hyn yn cynrychioli'r nodweddion y mae Sheers wedi bod yn siarad amdanynt.

Sut mae'r farddoniaeth yn cynrychioli'r dirwedd?

Pa deimladau a beth ddaw i'ch meddwl wrth ddarllen y cerddi yma?

Ydy'r naill fath o dirwedd neu'r llall (y ddinas brysur a'r chwarel fynyddig) yn gyfarwydd? Os felly, ydyr cerddi'n gwneud i chi edrych arnynt mewn golau newydd? Os nad ydyn nhw'n gyfarwydd, ydy'r cerddi'n llwyddo i gyfleu delwedd o'r dirwedd honno?

Beth y gellir ei ddysgu am hanes a diwylliant dynol, perthynas pobl â'r tir, amser daearegol, lleoliad daearyddol, o'r cerddi yma?

Sut mae'r dirwedd yn effeithio ar nodweddion arddull ac iaith y gerdd; ei geirfa, strwythur llinellau, cynllun odli (neu ddim cynllun), mydr, delweddau, nodweddion arddull? A ellir dweud ei fod, yng ngeiriau Sheers, yn "destun ac awdur," y gerdd?

Mae'r cerddi hyn yn cynrychioli dwy dirwedd wahanol iawn felly cymharwch nhw. Sut maen nhw'n wahanol? Oes yna unrhyw debygrwydd? Pa un sydd orau gennych? Pa un ydych chi'n meddwl sydd fwyaf effeithiol?

Os yw myfyrwyr wedi dod â cherddi tirwedd gan feirdd eraill i'r dosbarth, gofynnwch iddynt edrych ar y cerddi hyn yn yr un modd, gan eu rhannu efallai'n barau/grwpiau, gyda phob un yn edrych ar gerdd wahanol. Yna, gofynnwch iddynt gyflwyno eu casgliadau i'r dosbarth. Fel dosbarth, ystyriwch y gwahaniaethau rhwng cerddi sy'n disgrifio tirweddau gwahanol. Os oes gennych gerddi o wahanol gyfnodau amser, cymharwch nhw â'i gilydd hefyd. Oes yna debygrwydd yn y ffordd y maen nhw'n trafod y dirwedd? Ydy barddoniaeth tirwedd yn oesol, fel y mae Sheers yn honni?

Neu, defnyddiwch y cerddi gan feirdd eraill y mae Sheers yn sôn amdanynt yn y ffilm a'r erthygl ('Woods' gan Louis MacNeice, 'Binsey Poplars' gan Gerard Manley Hopkins, 'Reservoirs' gan R. S. Thomas, 'Grabualle Man' gan Seamus Heaney') a/neu un o'r cerddi canlynol o gasgliad Sheers *Skirrid Hill* ar gyfer yr un ymarfer. Mae dolenni i gopi o bob cerdd yn yr adran adnoddau.

**Cerddi Owen Sheers**

'The Hill Fort'

'Y Gaer'

'Border Country'

'Skirrid Fawr'

'The Steelworks'

'Farther'

Mae Owen Sheers yn dweud yn glir iawn yn y ffilm nad yw cerddi am dirwedd bob amser yn ymwneud â thirwedd yn unig. Dywed eu bod fel arfer yn ymwneud â phobl, a'r cysylltiad rhwng pobl a'r tir. Tua'r diwedd mae hefyd yn sôn am y posibilrwydd o ddefnyddio barddoniaeth i fynegi pryderon amgylcheddol, yn uniongyrchol, a thrwy atgoffa pobl o'r hyn y byddan nhw'n ei golli os gadewir i newid hinsawdd barhau heb wneud dim i'w atal. Pa bynciau eraill y gellid eu trafod drwy gyfrwng barddoniaeth tirwedd? Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am ychydig funudau a gwneud rhestr, yna trafodwch fel dosbarth neu mewn grwpiau. Ceisiwch eu hannog i gadw'r rhestr ac ychwanegu ati wrth iddynt feddwl am fwy o bynciau.

# Rhan 2 y Wers

Gwyliwch ail ran y ffilm (y gweithdy a recordiwyd yn y siop lyfrau), gan stopio'r ffilm pan fydd Sheers yn awgrymu bod y myfyrwyr yn cael amser i gwblhau'r ymarferion. Rhestrir yr ymarferion isod ynghyd ag amser y ffilm. Mae gwylio'r ffilm yn dal i fod yn bwysig os yw'n bosibl gan fod Sheers yn esbonio'r ymarferion yn fanylach o lawer na'r hyn a roddir isod.

Awgrymiadau yn unig yw'r amseroedd a roddir ar gyfer ymarferion a dylai athrawon fod yn rhydd i dreulio mwy neu lai o amser arnynt os ydyn nhw'n meddwl bod hynny'n addas.

Bydd angen deunyddiau ysgrifennu ar fyfyrwyr ar gyfer yr adran hon.

Yn ogystal â'r ymarferion a awgrymir gan Sheers, stopiwch ar 2:04 am 2 neu 3 munud i fyfyrwyr gael amser i benderfynu pa le y maen nhw am ei ddefnyddio.

Efallai fod ganddynt syniad da'n barod, ond rhowch ychydig funudau iddynt feddwl amdano yng ngoleuni sylwadau Sheers hyd at y man hwn.

Ar ôl iddynt benderfynu, dylen nhw ysgrifennu enw'r lle, yn ôl cyfarwyddiadau Sheers. Gall fod yn enw go-iawn neu'n enw dychmygol.

Os oes gan y lle enwau mewn mwy nag un iaith efallai y byddan nhw am feddwl am funud pa enw (o ran iaith) y byddan nhw'n ei ddewis.

Ar ôl ei ddewis, hwn fydd teitl eu cerdd.

- Ailgychwynnwch y ffilm, yna stopiwch ar 3.51 i roi amser i'r myfyrwyr ddisgrifio eu lle/tirwedd mor fanwl â phosibl. Rhowch 5–10 munud iddynt wneud hyn.

- Ailgychwynnwch y ffilm, yna stopiwch ar 4.44 i roi amser i'r myfyrwyr wneud yr ymarfer sain. Dylen nhw feddwl am sŵn sy'n gysylltiedig â'u tirwedd/lle a cheisio disgrifio'r sŵn mor fanwl â phosibl. Rhowch 4–5 munud iddynt wneud hyn.

- Ailgychwynnwch y ffilm, yna stopiwch ar 5.39 i roi cyfle i'r myfyrwyr feddwl am arogl sy'n gysylltiedig â'u lle, a'i disgrifio. Rhowch 4–5 munud iddynt wneud hyn.

- Ailgychwynnwch y ffilm, yna stopiwch ar 6.41 a cheisiwch annog y myfyrwyr i ddwyn i gof unrhyw ddigwyddiad (mawr neu fach, pwysig neu ddibwys) a ddigwyddodd yn eu lle. Gofynnwch iddyn nhw ddilyn

cyfarwyddiadau Sheers wrth ddisgrifio'r atgof hwnnw. Rhowch 4–5 munud iddyn nhw wneud hyn.

- **Ailgychwynnwch y ffilm, yna stopiwch ar 7.49** fel y gall y myfyrwyr feddwl am y gwrthrych y byddan nhw'n ei gymryd o'r lle fel rhywbeth i'w gofio. Rhowch 4–5 munud iddyn nhwwneud hyn.

- **Ailgychwynnwch y ffilm, yna stopiwch ar 10.11** i roi cyfle i'r myfyrwyr ailddarllen yr hyn y maen nhw wedi'i ysgrifennu a dilyn yr awgrymiadau a roddwyd.

Dylen nhw ystyried:

1. Am beth mae'r ysgrifennu'n sôn ar wahân i'r dirwedd? Beth arall sy'n digwydd o fewn eu testun?
2. Pa fath o iaith maen nhw wedi'i dewis?
3. Pa fath o gerdd sy'n debygol o ddeillio o'r darn ysgrifenedig hwn? Byr, hir, telynegol, syml, strwythuredig, rhydd? Pa deimlad sydd i'r gerdd ac ydy hi'n canu? Ydyn nhw'n gallu cael ymdeimlad o hynny'n barod?
4. Ble fydd y gerdd yn dechrau? A gyda beth? Nid yw trefn yr ymarferion uchod yn berthnasol – gall y gerdd ddechrau a gorffen yn unrhyw le.

Rhowch 5–10 munud i wneud hyn a phwysleisiwch fod yr ymarfer yn gallu parhau. Does dim rhaid iddynt roi ateb pendant i'r cwestiynau yn y fan a'r lle.

**Gwyliwch weddill y ffilm hyd at y diwedd.**

**Ceisiwch annog y myfyrwyr i wneud yr ymarfer a awgrymir, sef dod o hyd i gerdd fer a'i defnyddio fel patrwm ar gyfer eu cerddi eu hunain fel gwaith cartref. Ceisiwch eu hannog wedyn i ddilyn cyngor Sheers a rhoi'r gerdd o'r neilltu am ychydig cyn mynd ati i'w golygu.**



# Adnoddau

Erthygl Owen Sheers 'Poetry and Place: Some Personal Reflections'

http://www.owensheers.co.uk/pdf/geography.pdf

**Cerddi**

## Cerddi gan Owen Sheers

'History' – i'w gweld ar ddiwedd erthygl 'Poetry and Place'

'Skirrid Fawr' – https://genius.com/Owen-sheers-skirrid-fawr-annotated

'Y Gaer (The Hill Fort)'

https://genius.com/Owen-sheers-y-gaer-the-hill-fort-annotated

'The Hill Fort (Y Gaer)'

https://genius.com/Owen-sheers-the-hill-fort-y-gaer-annotated

'Border Country'

https://genius.com/Owen-sheers-border-country-annotated

'Farther' – https://genius.com/Owen-sheers-farther-annotated

'The Steelworks'

https://genius.com/Owen-sheers-the-steelworks-annotated

Mae'r wefan hefyd yn rhoi rhywfaint o gefndir i bob cerdd a dadansoddiad byr.

## Cerddi Eraill y Cyfeirir Atynt

Louis MacNeice, 'Woods'. Dyma'r gerdd mae Sheers yn dyfynnu ohoni yn hanner cyntaf y ffilm.

http://www.blueridgejournal.com/poems/lm-woods.htm

Seamus Heaney, 'Grabualle Man'. Dyma'r gerdd gan Seamus Heaney y mae Sheers yn ei thrafod yn yr erthygl 'Poetry and Place'. Testun y gerdd yw'r Grabualle Man, sef corff gŵr a ddarganfuwyd bron yn berffaith mewn cors yn Nenmarc. Felly mae'n enghraifft wych o'r hyn y mae Sheers yn credu ynddo, hynny yw bod y dirwedd yn gallu arddangos olion o'r gorffennol a'r presennol ar yr un pryd â'r rhyngweithio rhwng pobl a'r tir.

https://www.poetryfoundation.org/poems/57044/the-grauballe-man

R. S. Thomas, 'Reservoirs'. Dyma gerdd gan R. S. Thomas y mae Sheers yn sôn amdani yn yr erthygl. Ysgrifennwyd 'Resevoirs' am y pentrefi yng Nghymru a foddwyd i greu cronfeydd dŵr er mwyn cyflenwi dŵr i ddinasoedd Lloegr. O ganlyniad, mae 'Resevoirs' yn gerdd genedlaetholgar, er ei bod hefyd yn ceryddu'r Cymry am fod yn rhy ddi-asgwrn-cefn i ymladd yn ôl. Fodd bynnag, mae hefyd yn enghraifft dda arall o dirwedd yn arddangos y gorffennol a'r presennol ochr yn ochr â'i gilydd gan mai dim ond cuddio adfeilion y pentref oddi tano y mae arwyneb digynnwrf y gronfa ddŵr bresennol.

https://allpoetry.com/reservoirs

Gerard Manley Hopkins, 'Binsey Poplars'. Dyma'r gerdd y mae Sheers yn dyfynnu ohoni ar ddiwedd rhan gyntaf y ffilm: "After-comers cannot guess the beauty been."

https://www.poetryfoundation.org/poems/44390/binsey-poplars

## Llyfrau

*A Poet's Guide to Britain*, golygwyd gan Owen Sheers (Llundain: Penguin, 2009), pp. xvii-xxiii. Yn ei gyflwyniad, mae Sheers yn ymhelaethu ar lawer o bethau mae'n eu 4dweud yn y ffilm, tra bod y llyfr ei hun yn cynnig amrywiaeth eang o farddoniaeth tirwedd.

## Gwefannau

Mae gwefan Owen Sheers yn cynnwys llawer o wybodaeth ac adnoddau defnyddiol, gan gynnwys dolenni i adolygiadau a fideos o'r awdur yn siarad am ei waith.

http://www.owensheers.co.uk

Mae'n rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndir am Sheers a dadansoddiad o'i waith.

https://literature.britishcouncil.org/writer/owen-sheers

'An Interview with Owen Sheers' – The Poetry Archive.

https://poetryarchive.org/interviews/interview-owen-sheers/

Sheers ar daith gerdded yn edrych ar y Mynydd Du o Darren y Gader. Mae hyn yn agos at leoliad rhan gyntaf y ffilm a dyma dirwedd plentyndod Sheers.

https://www.theguardian.com/travel/2016/jul/28/black-mountains-wales-walking-myth-folklore

## Crynodeb o'r Erthygl

Dyma grynodeb o erthygl Owen Sheers 'Poetry and Place: Some Personal Reflections' lle mae'n cadarnhau llawer o'r pethau y mae'n eu dweud yn rhan gyntaf y ffilm. Daw'r holl rannu a ddyfynnir o'r erthygl.

### 'Poetry and Place: Some Personal Reflections'

Cwympodd Owen Sheers mewn cariad â thirweddau o oedran cynnar iawn, yn llawer cynharach nag y dechreuodd gymryd at farddoniaeth. Roedd yn teimlo'n wahanol, yn well, yn yr awyr agored, yn enwedig yn y bryniau o amgylch ei gartref. Ond dim ond pan ddarganfu farddoniaeth y dechreuodd allu deall y teimladau hyn, a sut a pham mae'r dirwedd yn cael effaith fel hyn arno.

Roedd y rhan fwyaf o'r cerddi oedd yn mynd â'i fryd yn ystod ei arddegau wedi'u gwreiddio mewn tirweddau gwledig penodol; e.e. barddoniaeth R. S. Thomas am ardal ffermydd mynydd Gogledd Cymru, gwaith Seamus Heaney sydd wedi'i osod yng nghefn gwlad Iwerddon. Gall lleoliad daearyddol cerdd ddylanwadu ar y ffordd yr ysgrifennir y gerdd ei hun, ei hiaith, mydr, llais ac yn y blaen. Roedd y dirwedd, "yn destun ac awdur o fewn y cerddi". Yn ei dro, datgelodd y cerddi ddyfnderoedd cudd y dirwedd, fel lleoliad ffisegol a meddyliol. Mae'n sôn am ymadrodd Heaney, "*countries of the mind*," gan ei ddehongli fel, " *geographical areas possessed of their own internal geographies of memory, history and language*."

Weithiau mae'r gerdd yn defnyddio delweddau ffisegol, diriaethol i gynrychioli'r diwylliant a'r hanes. Dwy enghraifft y mae Sheers yn eu rhoi yw 'Grabualle Man' gan Seamus Heaney ac 'Resevoirs' gan R. S. Thomas (mae dolenni i'r ddwy gerdd yn yr adran adnoddau). Disgrifia 'Grabualle Man' gorff gŵr mewn cyflwr perffaith a ddarganfuwyd mewn cors, tra bod 'Resevoirs' yn cyfleu delweddau o bentrefi a foddwyd i greu'r cronfeydd dŵr. Mae ddoe a heddiw'n bodoli ochr yn ochr â'i gilydd yn y dirwedd yn y ddwy ddelwedd.

Mae'r cerddi hyn hefyd yn enghreifftiau o berthynas ddyfnach rhwng barddoniaeth a thirwedd a sut a pham y gall y ddau effeithio ar berson. Gall barddoniaeth a thirwedd drosi meddyliau a theimladau haniaethol yn iaith neu'n ddelwedd ffisegol. Wrth edrych dros y Mynydd Du ger ei gartref, mae Sheers yn gweld golygfa sydd meddai'n, "*seems to embody and define a multitude of vaguer sensations and thoughts about the place*…" Mae'r meddyliau a'r teimladau hyn yn cynnwys y berthynas rhwng pobl a'r tir, y ddaearyddiaeth a ffurfiwyd yn wreiddiol gan rewlifoedd mor bell yn ôl, ac olion hanes mwy diweddar, gan wneud iddo deimlo a meddwl yn wahanol. Yn yr un modd, bydd cerddi da yn 'lleoli' darllenydd drwy eu

helpu i grisialu meddyliau a theimladau nad ydyn nhw'n ymwybodol iawn ohonyn nhw fel arfer.

Er mwyn gwneud y teimladau haniaethol hyn yn rhai diriaethol, bydd barddoniaeth a thirwedd yn defnyddio nifer o ddylanwadau. Gall tirwedd ddefnyddio hanes lleol neu genedlaethol, y rhyngweithio rhwng pobl â'r dirwedd honno, profiad personol ac atgofion, y golau, y tywydd, arogl a sŵn y lle, tra bod barddoniaeth yn defnyddio nodweddion arddull fel rhythm, mydr, priodieithoedd, delweddau ac odl. Er bod tirwedd, fel llun, yn aml yn gallu cyfleu mwy ynddo'i hun nag y gall geiriau fyth ei wneud (mae ei enghreifftiau graffig yn cynnwys wal sy'n cadw pobl ar wahân yn ninas Belfast), mae Sheers yn dadlau mai cerdd yw'r cyfrwng mwyaf effeithiol ar lafar sy'n cyfateb i hyn – bod modd 'trosi' delwedd yn gerdd a'i harchwilio oherwydd y nodweddion trosiadol y mae barddoniaeth a thirwedd yn eu rhannu. Maen nhw'n cysylltu ac yn awgrymu meddyliau a theimladau yn yr un modd hyd yn oed os yw eu dulliau o wneud hynny'n wahanol.

Mae'r rhan fwyaf o'r erthygl yn trafod tirweddau gwledig ond mae'r un berthynas rhwng barddoniaeth a thirwedd yn bodoli hyd yn oed yn fwy grymus mewn tirweddau trefol. Pan symudodd Sheers i Efrog Newydd, trodd at y farddoniaeth a ysgrifennwyd amdani fel arweiniad a darganfu fod amgylchedd y ddinas yn aml yn effeithio ar ffurf y farddoniaeth. Er enghraifft, cynyddodd Walt Whitman hyd ei linellau'n sylweddol ar ôl symud i'r ddinas er mwyn adlewyrchu cymhlethdod ei amgylchedd. Yn yr un modd, pan gafodd Sheers ei gomisiynu i ysgrifennu cerdd am Manhattan, defnyddiodd gynllun odli cymhleth (dyfyniad yn yr erthygl).

Mae Sheers yn gorffen yr erthygl gyda cherdd 'History' sy'n ceisio mynegi'r hyn y mae wedi ei drafod yn yr erthygl am y berthynas rhwng barddoniaeth a thirwedd.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

HAY FESTIVAL EDUCATION